IFES
students reaching students with the gospel worldwide

# Llythyr Gweddi Heledd Job Gorffennaf 2011

Mae bron i flwyddyn ers i chi gael fy llythyr gweddi diwethaf. Diolch am eich gweddïau drosto fi wrth i fi geisio ewyllys Duw ynglŷn â'r dyfodol. Mae Duw wedi ateb eich gweddïau ac ym mis Mai fe ges i fy nerbyn gan fudiad cenhadol UFM Worldwide i fynd i weithio gyda IFES (International Fellowship of Evangelical Students) yn Slovakia. Cyn i mi esbonio mwy am Slovakia gadwch i fi sôn yn gyntaf am yr hyn rydw i wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn dwytha'.

Ers mis Medi rydw i wedi bod yn gwneud MA mewn Astudiaethau Cyfieithu ym Mangor. Mae wedi bod yn dipyn o newid bod yn fyfyriwr eto a'r cwrs wedi bod yn dipyn o her ar adegau. Ond mae wedi bod yn gyfle da i feddwl am llawer o'r syniadau mae myfyrwyr yn eu derbyn yn ddifeddwl. Mae wedi fy nharo dro ar ôl tro pa mor elyniaethus i'r gwirionedd ydy byd Prifysgol mewn cymaint o ffyrdd. Dyma pam mae angen Undebau Cristnogol!!! I fod yn help i fyfyrwyr i sefyll yn erbyn syniadau anghywir ac i allu cyflwyno gobaith yr efengyl yn glir a hyderus mewn byd tywyll ac anghenus. Fe fyddai'n gorffen yr MA ym mis Medi ac rydw i'n ddiolchgar iawn am y cyfle mae Duw wedi ei roi i fi'r flwyddyn hon i ddysgu a meddwl, a chael golwg fresh ar y maes cenhadol yma.

Dwi'n ddiolchgar hefyd am gyfle i fod 'nôl ym Mangor, i gael treulio mwy o amser efo'r teulu a bod yn yr eglwys yma eto. Mae nhw wedi bod yn help mawr i mi wrth i fi geisio meddwl am y dyfodol a 'dwi'n diolch i Dduw amdanynt.

Felly dyma edrych ymlaen at y flwyddyn nesa'... Cwestiwn mae llawer yn gofyn wrth i fi sôn am Slovakia (ar ôl gofyn ble?!) ydy pam? Yn syml iawn, mae 'na angen yna, mae Duw wedi agor y drws a'i roi o ar fy nghalon i fynd. Mae wedi bod yn gymaint o fendith bod yn rhan o UCCF yma yng Nghymru, ac mae Duw wedi dysgu lot i fi trwy'r 5 mlynedd diwethaf. Mae'n fraint rŵan gallu mynd a rhannu ychydig o hynny gyda gwlad arall sydd â llai o adnoddau a gweithwyr.

Dwi wedi amgáu taflen gefnogi gyda'r llythyr sy'n sôn mwy am y sefyllfa yn Slovakia a'r UC yn benodol. Fel y gwelwch chi, mae'r grwpiau UC yn brin ac yn fach a phrifysgolion yn llawn myfyrwyr sy'n galed a difater am bethau ysbrydol. Ond mae gennym ni Dduw mawr ac efengyl sydd â'r nerth i newid calonnau yn llwyr. Felly fy ngweddi i yw y bydd yr efengyl yn cael gafael ar galonnau myfyrwyr, yn eu trawsnewid a'u gwneud yn dystion hyderus, a thrwyddynt y bydd eraill yn dod i adnabod a charu Iesu.

Dwi'n gobeithio gallu mynd i Slovakia mis Hydref. Cyn i hynny ddigwydd mae angen i fi gasglu grŵp o bobl fydd yn gallu cefnogi'r gwaith mewn gweddi ac yn ariannol. Yn wahanol i fy ngwaith gyda UCCF mae angen i fi godi fy holl gostau. Felly os ydych chi mewn sefyllfa i allu cyfrannu'n ariannol, ac os hoffech chi wneud hynny, yna plîs llenwch y ffurflen sydd gyda'r llythyr hwn a'i anfon i UFM. Rydw i hefyd yn ymwybodol iawn fod gweddïau pobl Dduw am ei waith mor bwysig, ac felly fe fyddwn i wrth fy modd petai chi'n fodlon bod yn rhan o'r gwaith yn y ffordd yma. (Os nad ydych chi'n derbyn fy llythyrau gweddi dros e-bost ac os hoffech chi wneud hynny yna anfonwch eich cyfeiriad e-bost i fi). Dros yr wythnosau nesaf fe fyddwn i'n gwerthfawrogi'ch gweddïau y bydd Duw yn darparu'r holl gefnogaeth yn fuan er mwyn i mi allu gwneud y trefniadau ymarferol sydd angen eu gwneud, a hefyd y byddwn i'n ymddiried ynddo'n amyneddgar wrth i mi aros.

Mae'r adnod "Gorffwysa unwaith eto fy enaid, oherwydd bu'r Arglwydd yn hael wrthyt." (Salm 116:7) wedi bod yn fy meddwl lot dros y flwyddyn yma. Mewn amser o newid, lle mae lot o ansicrwydd, dwi'n ei chael hi'n hawdd iawn i boeni. Ond, fel y mae'r adnod yma'n dweud, mae Duw wedi bod mor hael tuag ato fi. Does na ddim un amser lle gallai ddweud fod Duw wedi peidio a bod yn dda. Ac mae gen i'r prawf mwyaf o'i gariad tuag ato fi yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i farwolaeth ar y groes. Mae gen i bob rheswm i'w drystio fo. Felly wrth i mi baratoi i fynd ac wrth i fi ddod yn fwy a mwy ymwybodol o fy ngwendid fy hun, plîs gweddïwch yn byddai'n cofio a gwrando ar yr adnod hon.

Diolch i chi am eich partneriaeth yn yr efengyl a dwi'n edrych ymlaen at weld yr hyn mae Duw am ei wneud drwom ni yn Slovakia dros y blynyddoedd nesaf.

Yng Nghrist,

ufm WORLDWIDE

32 Ffordd Ainon, Bangor, Gwynedd, LL57 2YE. heleddjob@hotmail.com
UFM Worldwide, 145 Faringdon Road, Swindon, SN1 5DL. ufm@ufm.org.uk www.ufm.org.uk